| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **23 MEDI 2008** |
| **TEITL** | **CYNHADLEDD BUDDSODDI LGC – 4/5 MEDI 2008** |
| **ARGYMHELLIAD** | **DIM ARGYMHELLIAD PENODOL – ADRODD YN OL AR Y PRIF FATERION A GODWYD**. |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS**<br>**CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU** |

1 Yn unol a phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf, aeth y Cynghorydd Trefor Edwards , y Cynghorydd J R Jones a minnau i Gynhadledd Buddsoddi'r LGC (Local Government Chronicle) ar 4 a 5 Medi.

2. Cafwyd cyflwyniadau diddorol yn ymwneud â sefyllfa'r economi a'i oblygiadau i fuddsoddwyr; a ddylid buddsoddi mewn bondiau cwmniau; a ddylid defnyddio meincnodau sydd wedi eu pwyso yn erbyn y farchnad; a'r peryglon sy'n cuddio wrth i oes bywyd aelodau ymestyn.

3. 'Roedd yna gyflwyniadau eraill llai diddorol.

4. O ran yr economi, nododd Alan Brown Prif Swyddog Buddsoddi Cwmni Schroders ei fod o'r farn tra fod y sefyllfa economaidd yn fregus ac ein bod wedi gweld yr economi yn arafu'n sydyn 'roedd nifer o sylwebyddion yn awgrymu y byddai'n gwella'n raddol. Yn y cyfamser ar sail wybodaeth gymharol dros gyfnod o 20 mlynedd , 'roedd prisiau ecwiti ar waelod y gyfradd Enillion/Pris ac 'roeddent eisoes yn adlewyrchu unrhyw newyddion drwg oedd i ddod ac yn fuddsoddiad deniadol felly.

5. Fodd bynnag nododd hefyd nad oedd ecwiti am gynnig y dychweliadau parhaus da yr oeddem wedi ei weld yn hanesyddol gan awgrymu y dylai cronfeydd ystyried edrych tuag at ddosbarthiadau asedau amgen. Fel Cronfa 'rydym eisoes wedi cychwyn ar y daith yma wrth gwrs ond nid cymaint a rhai cronfeydd yn yr Unol Daleithiau sydd yn buddsoddi cymaint a 33% mewn buddsoddiadau amgen.

6. O ran buddsoddi mewn bondiau cwmniau, 'roedd Mark Brett o Capital International yn nodi fod yna amrediad eang o ddychweliadau ar gael yn y farchnad ar hyn o bryd ac fe ddylai polisi o reoli bondiau yn weithredol ganiatau i gronfeydd gymeryd mantais o'r amrediad yma. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Ymgynghorydd am bapur ar gyfer ceisio buddosddi bondiau ar sail gweithredol wrth gwrs ac fe fydd y papur hwnnw yn dod ger bron ym mis Tachwedd.

7. Cyfeiriodd Eric Lambert o gwmni WM at y rhesymeg o herio buddsoddi gweithredol ym meysydd ecwiti'r Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America oherwydd nad yw'r rheolwr gweithredol cyfartalog wedi medru curo'r frachnad yn y gwledydd yma dros 3, 5 na 10 mlynedd. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried hyn wrth sefydlu ei ddyraniad asedau diwygiedig wrth gwrs.

8. ‘Roedd Julian harding o Legal & General yn nodi fod yna feincnodau gwahanol i’r meincnod arferol sydd yn rhoi pwysau yn ol gwerth marchnad pob cwmni, a diddorol oedd clywed am yr amrywiol rai oedd ar gael e.e. meincnod wedi ei gapio (er mwyn sicrhau nad oeddem yn prynu gormod o stociau 10 uchaf y DU dyweder) ac amrywiol rai eraill. Tra’n nodi mai rheolwr buddsoddi goddefol yw L&G diddorol oedd nodi ei dystiolaeth fod 50% o Gronfeydd Sector Breifat yn cael e u buddsoddi drwy ddulliau goddefol tra mai dim ond 20% o asedau’r sector gyhoeddus oedd yn cael eu buddsoddi felly. [ Tua 35% yw ffigwr Cronfa Gwynedd].

9. Nododd Tim Lunn o gwmni Hewitts (Cwmni Actiwaraidd) sut yr oeddent yn cyfrifo oes bywyd a’r neges oedd tra bod eu gallu i gyfrifo oes bywyd presennol yn gwella, ‘roedd yn anodd o hyd i ragweld y dyfodol ac yn cynrychioli un o’r risgiau mwyaf y mae cronfeydd yn eu wynebu.

10. Dilynwyd hyn gan Toby Nangle Cyfarwyddwr Asset Allocation Research yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond chwarter y Cwmniau FTSE100 sydd bellach yn rhedeg Cronfa Bensiwn buddion a ddiffiniwyd tebyg i’r rhai sector gyhoeddus. Heriodd a oedd hyn yn gynaladwy yn yr hir dymor wrth i’r cyhoedd ddod yn fwy ymwybodol o’r ffaith yma. Yn y cyswllt hyn heriodd a ddylai awdurdodau ymateb yn heriol i’r ymgynghoriad ar rannu costau gyda’r gweithwyr.

11. Un agwedd arall a’m synodd oedd gweld “yield curve” bondiau’r DU sydd yn hollol wahanol i siap un FFrainc a’r UDA. Pe byddai gennym “yield curve” tebyg i un FFrainc – ni fyddai gan y rhan fwyaf o Gronfeydd ddiffygion !! Mae hyn yn fater y byddaf yn ei godi gydag Actiwari’r Gronfa.

12. Un cyflwyniad arall a gafwyd oedd yn mynd yn groes i gyfeiriad presennol y Gronfa yng Ngwynedd oedd un gan James Ross, Alliance- Bernstein oedd yn cymell buddsoddi mewn arian tramor (“currency”). Wrth gwrs ‘roedd ganddo rhywbeth i’w werthu ond byrdwn ei neges oedd nad gem na ellir ei hennill yw’r dosbarth ased yma ac ‘roedd ganndynt fodel oedd yn dangos fod arian gwledydd gyda chyfraddau llog uchel yn dueddol o wneud yn well na’r disgwyl ac thrwy ddefnyddio’r model yma ‘roeddent yn medru rhoi dychweliadau o 6.8% y flwyddyn iddynt ers i’r Gronfa fod mewn bodolaeth. Tra bod y mater yn un diddorol nid wyf wedi fy argyhoeddi am fuddion y dosbarth ased yma ac mae yna rai eraill y dyliem edrych arnynt cyn cyrraedd y maes yma.